



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Annwyl gydweithwyr

Wrth i bwysau uniongyrchol yr ail don ddistewi ac wrth i ni, gyda'n gilydd, geisio dal ein gwynt am ennyn neu ddau, gobeithio nad oes ots gennych imi gysylltu â chi gyda diweddariad byr ar hyfforddiant. Mae heriau'r 12 mis diwethaf wedi bod yn enfawr. Rydych chi i gyd wedi bod yn rhan annatod o'r ymateb ac mi fyddwch chi ar gyfer y broses adfer, ac rydym ni'n hynod falch o'ch cyfraniad. Diolch!

Ni fu eich llais erioed yn bwysicach o ran llunio dyfodol hyfforddiant meddygol ôl-raddedig a bydd modd i chi gael eich clywed drwy gyfrwng arolwg hyfforddiant cenedlaethol y GMC a lansiwyd yr wythnos hon ar 20^{fed} Ebrill. Mae hon yn ffynhonnell wybodaeth hynod bwysig a dylanwadol felly er gwaethaf y ffaith nad yw cwblhau arolwg yn debygol o fod ar flaen eich rhestr flaenoriaeth ar hyn o bryd, a gaf ofyn yn garedig ichi gymryd yr amser i'w chwblhau. A gaf i hefyd ddiolch i'r rhai ohonoch sydd wedi defnyddio 'AaGIC agored' (HEIW.Open@wales.nhs.uk) yn ystod y misoedd diwethaf i'n hysbysu am eich pryderon, gan ein galluogi i symud ymlaen â thrafodaethau yn gyflym gyda chydweithwyr Byrddau Iechyd i sicrhau gweithrediadau priodol. Daliwch ati i'w hanfon!

Heb os, bydd gan rai ohonoch bryderon am yr effaith bosibl y mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi'i chael ar eich dilyniant hyfforddi eich hun. Efallai bod rhai ohonoch yn ansicr ynghylch eich amgylchiadau unigol, a chyda rhanddirymadau lluosog ar waith, deallaf y gall fod yn ddryslyd. Byddwn yn gofyn i bob un ohonoch graffu ar y cymhorthion penderfynu ARCP perthnasol a chysylltu â'ch goruchwyliwr addysgol i drafod pa gymwyseddau a allai fod yn ofynnol cyn yr ARCP sydd ar ddod ac, yn bwysicach fyth, edrych ymlaen at y flwyddyn y tu hwnt i hynny. Cymerwch gyfrifoldeb personol dros ddeall eich sefyllfa eich hun a gofynnwch am fewnbwn pan nad ydych yn siŵr.

I nifer fechan o hyfforddeion ni fu'n bosibl parhau ag hyfforddiant wynebu cleifion yn ystod y pandemig. Nid yn unig y mae'r unigolion hynny wedi methu â gwneud gwaith clinigol ond maent hefyd wedi colli'r cyswllt cymdeithasol hwnnw y mae'r gweddill ohonom wedi elwa ohono dros y flwyddyn ddiwethaf. Hoffwn sicrhau'r unigolion hynny nad ydym wedi anghofio amdanynt a byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r GIG i ddarparu eglurder ynghylch sut a phryd y gallant ddychwelyd i'r gweithle yn ddiogel yn dilyn y dosbarthiad brechlyn llwyddiannus.

Er nad wyf eisiau meiddio hyd yn oed codi ofn ynglŷn â 3^{edd} ton COVID bosibl mae'n bwysig ein bod yn cynllunio ar gyfer bob posibilrwyd. Ymddengys bod y modelu diweddaraf yn awgrymu y gallai hyn ddigwydd rywbryd yn yr hydref ond, diolch i'r rhaglen frechu, gallai brig y don fod yn llawer mwy gwastad nag a feddyliwyd yn wreiddiol. Croeswn ein bysedd! Os bydd angen adleoli hyfforddeion yn y dyfodol mae'n hanfodol i hyn gael ei reoli'n ofalus iawn, gan amddiffyn y rhai yr effeithiwyd arnynt fwyaf. Rydym eisoes yn gweithio'n agos gyda Byrddau Iechyd i gynllunio ar gyfer hyn a byddwn yn rhannu ein cyngor yn y dyfodol agos.

Yn olaf, i ddiweddu ar nodyn cadarnhaol, a gaf i gynnig diweddariad ar y sefyllfa mewn perthynas â seibiant astudio a gwyliau blynyddol. Gallaf gadarnhau bod y telerau yn y datganiad atodedig o 2020 ym mherthynas gwyliau blynyddol yn pery eto eleni. Bydd y telerau a amlinellir yn natganiad 2020 ar gyfer lwfans personol seibiant astudio hefyd yn pery. Yn dilyn proses ymgynghori ynghylch seibiant

astudio, yr opsiwn a ffafriwyd gan y mwyafrif o hyfforddeion oedd galluogi i lwfans seibiant astudio personol nas defnyddiwyd gael ei dreiglo drosodd ar gyfer y rhai sy'n aros mewn hyfforddiant yng Nghymru. Credwn fod gennym bellach beirianwaith mewn grym i weithredu hyn yn y tymor hir.

Diolch i chi i gyd unwaith eto am eich cefnogaeth yn unigol a thorfol. Gofalwch amdanoch eich hun a'ch gilydd.

Dr Tom Lawson

Deon Meddygol Ôl-raddedig